LIVING STREETS

DEWCH I NI GERDDED I'R YSGOL

# MIS RHYNGWLADOL CERDDED I'R YSGOL

## Saffari Stryd yr Hydref

Mae llawer o bethau diddorol i'w gweld a'u gwneud wrth i ti gerdded, olwyno neu sgwtera i'r ysgol. Faint o'r gweithgareddau hyn y gallet ti eu ticio i ffwrdd ar dy Saffari Stryd yr Hydref?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dod o hyd i bluen hardd ☐ | Gweld aderyn a thynnu llun ohono ☐ | Defnyddio dail i wneud celf ☐ | Rho gwtsh i goeden fawr ☐ |
| Edrych o dan graig – pwy sy'n byw yno? ☐ | Dod o hyd i ddeilen goch ☐ | Dod i fyny gyda stori frawychus ☐ | Jyglo gyda moch coed ☐ |
| Neidio dros bwllyn ☐ | Esgus bod yn wiwer sy'n cysgu dros y gaeaf ☐ | Dysgu pam fod dail yn newid lliw ☐ | Dod o hyd i groesfan sebra ☐ |
| Dweud helo i gymydog ☐ | Dawnsio o gwmpas madarch ☐ | Cau dy lygaid a gwrando – beth wyt ti'n clywed? ☐ | Stampio ar bentwr o ddail ☐ |

**Enw:** ______________________________ **Oed:** __________

LIVING STREETS

DEWCH I NI GERDDED I'R YSGOL

# GWEITHGAREDDAU CERDDED I'R TEULU YR HYDREF

**Mae mynd am dro yn ffordd wych o archwilio dy ardal leol a chael hwyl gyda dy deulu a ffrindiau. Sylwa ar yr hyn y gallet ti ei arogli, ei deimlo, ei glywed a'i weld wrth gerdded mewn parc neu fan gwyrdd lleol – efallai y bydd yn syndod i ti!**

Wnest ti ddarganfod madarch neu wneud mandala hydref? Byddem wrth ein bodd yn gweld dy ddarganfyddiadau hydref! Gall dy rieni neu ofalwyr rannu dy luniau a fideos ar gyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio'r hashnod #SaffariStrydYrHydref.

## BETH AM ROI GYNNIG AR...



**Ysgrifennu cerdd neu stori am siwrne diferyn glaw i lawr y stryd.**



**Defnyddio'r eitemau a gasglwyd ar dy deithiau cerdded i wneud mandala natur hydrefol.**



**Gwneud cartref i ddraenog o flwch plastig wedi'i lenwi â dail sych.**

## RHIENI A GOFALWYR - RYDYM NI EISIAU CLYWED ODDI WRTHOCH CHI!

**Rhannwch gof o'ch Saffari Stryd yr Hydref am gyfle i ennill yn ein raffl wobrwyo i ennill taleb siopa Shoezone gwerth £25!**

**DYSGWCH FWY WRTH SGANIO'R COD QR NEU EWCH I LIVINGSTREETS.ORG.UK/AUTUMN**

shoezone